Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau

# Cais gan gwmni am hawl y gyrrwr i yrru

**D888/1W**

## Nodiadau cyfarwyddyd ar gyfer y gyrrwr – darllenwch y nodiadau hyn cyn i chi lenwi'r ffurflen hon

1 Mae DVLA yn trafod eich data personol yn unol â chyfraith traffig ffyrdd a chyfreithiau diogelu data. Mae'r gyfraith yn ein galluogi i ryddhau eich data i'r heddlu a chyrff gorfodaeth eraill. Rydym hefyd yn darparu data i bartïon eraill ble mae'r gyfraith yn caniatáu. Am wybodaeth bellach ar sut rydym yn prosesu eich data, eich hawliau a phwy i gysylltu gyda, gweler ein hysbysiad preifatrwydd yn www.gov.uk/dvla/privacy-policy neu gofynnwch am gopi ysgrifenedig drwy ffonio 0300 790 6106.

2 Dim ond os ydych chi wedi darllen a deall sut fydd eich gwybodaeth trwydded yrru yn cael ei phrosesu gan y cwmni neu gwmnïau yn Adran 1 ddylech chi lenwi'r ffurflen hon. Rhaid i'r cwmni sy'n gwneud yr ymholiad lenwi Adrannau 1 a 2 yn gyntaf. Yna rhaid i chi lenwi Adran 3 a llofnodi a dyddio'r datganiad yn Adran 4. Ni fydd DVLA yn derbyn ffurflenni os nad ydynt wedi'u llofnodi a'u dyddio gennych chi. Os byddwch yn newid unrhyw wybodaeth ar y ffurflen hon, rhaid i chi roi llythrennau cyntaf eich enw a'r dyddiad ger y newidiadau hyn.

3 Mewn rhai achosion gall y cwmni sy'n gofyn am wybodaeth o gofnod eich trwydded yrru (yr 'ymholwr') fod yn gofyn ar gyfer y cwmni yr ydych yn gysylltiedig iddo. Dylai'r ymholwr lenwi manylion yr holl gwmnïau a fydd yn prosesu'r wybodaeth hon yn Adran 1.

4 Os yw'ch cyswllt gyda'r cwmni neu gwmnïau a enwir yn Adran 1 yn dod i ben, mae gennych hawl i'ch gwybodaeth beidio cael ei geisio neu brosesu ganddynt. Cyfeiriwch at y polisi preifatrwydd a phrosesu gwybodaeth deg ar gyfer y cwmni neu gwmnïau a enwir yn Adran 1.

5 Gallwch hefyd weld neu rannu eich gwybodaeth trwydded yrru ar-lein yn **www.gov.uk/gweld-neu-rannu-eich-gwybodaeth-trwydded-yrru**

6 Os nad yw'r manylion ar eich trwydded yrru'n gyfredol, dychwelwch i DVLA a rhoi gwybod inni ynghylch y newidiadau mae angen inni eu gwneud. Yn ôl y gyfraith, rhaid i chi ddweud wrthym ar unwaith os newidiwch eich cyfeiriad parhaol neu enw. Gallech orfod talu dirwy o hyd at £1,000 os na ddywedwch wrthym am y newidiadau hyn.

7 Os yw eich trwydded wedi'i cholli, ei dwyn neu ei dinistrio bydd angen i chi wneud cais am drwydded yn ei lle. Gallwch weld sut i wneud hyn ar-lein yn **www.gov.uk/gwneud-cais-arlein-i-adnewyddu-trwydded-yrru** Neu cyn belled nad ydych wedi newid y manylion ar eich trwydded cerdyn llun, gallwch ymgeisio am drwydded yn ei lle yn defnyddio cerdyn debyd neu gerdyn credyd trwy ffonio 0300 790 6801 rhwng 8am a 7pm dydd Llun i ddydd Gwener, a rhwng 8am ac 2pm ar ddydd Sadwrn.

## Nodiadau cyfarwyddyd ar gyfer y cwmni

1 Rhaid i chi lenwi Adrannau 1 a 2 cyn i'r gyrrwr lofnodi'r datganiad yn Adran 4.

2 Os ydych chi angen gwybodaeth Tystysgrif o Gymhwyster Proffesiynol (CPC) neu Gerdyn Tacograff Digidol neu'r ddau, cysylltwch â'r Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau: (**www.gov.uk/government/organisations/driver-and-vehicle-standards-agency**).

Noder – ni ddylech gyflwyno'r ffurflen D888/1W hon i DVSA. Gallwch wirio gwybodaeth Cerdyn Cymhwyster Gyrrwr (DQC) llawn a gwybodaeth hyfforddi gyfnodol ar **www.gov.uk/check-your-driver-cpc-periodic-training-hours**

3 Rhaid i chi ddweud wrth DVLA beth yw'r rheswm dros ofyn am yr wybodaeth trwydded yrru yn Adran 2. Dim ond am y rheswm hwn ddylech chi ddefnyddio'r wybodaeth hon. Os na fyddwch yn darparu digon o wybodaeth neu ddim yn sicrhau y llofnodir y ffurflen hon gan y gyrrwr, bydd yn annilys ac yn cael ei gwrthod. Byddwn yn cynnal gwiriadau er mwyn dilysu'r wybodaeth a ddarparwch.

4 Mae dyletswydd ar DVLA o dan gyfraith diogelu data i ddiogelu gwybodaeth bersonol. I sicrhau amddiffyniad digonol, mae DVLA yn gofyn fod y gyrrwr (gwrthrych y data) yn cael ei hysbysu ac yn deall sut fydd ei wybodaeth trwydded yrru yn cael ei phrosesu.

5 Dim ond i gadarnhau hawl i yrru bydd DVLA yn rhyddhau gwybodaeth trwydded yrru ac mae'n ei chadw yn unol â chyfraith diogelu data. Rhaid i reolwyr data gydymffurfio gydag unrhyw ofyniad hysbysiad dan gyfraith diogelu data. Rhaid gofyn am a phrosesu gwybodaeth trwydded yrru yn unol â'r amodau a thelerau a nodir yn y cyfarwyddyd hwn.

6 Mae'n drosedd i gaffael data personol yn anghyfreithlon sy'n groes i gyfraith diogelu data. Y cosbau ar gyfer y troseddau hyn yw dirwyon a gyhoeddir yn y llys ynadon neu Lys y Goron.

7 Os byddwn yn derbyn cwyn cyfreithlon ynghylch gwybodaeth a gasglwyd yn anghyfreithlon, gallwn ei basio ymlaen at y Comisiynydd Gwybodaeth. Os oes gennym dystiolaeth bod gwybodaeth wedi'i chael neu'i defnyddio'n amhriodol, gallwn wrthod pob cais yn y dyfodol.

8 Mae'n rhaid i chi fod yn ymwybodol o adrannau penodol o gydymffurfiad er mwyn sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r rheolau ar sut i storio a chael mynediad at ddata a ddarperir i chi gan DVLA. Mae amodau neilltuol ynghylch trosglwyddo'r data o wlad i wlad a chael mynediad at y data mewn gwlad arall tra eu bod wedi eu cadw yn y DU. Mae defnyddio data mewn gwlad arall goblygiad arwyddocaol am sicrwydd gwybodaeth, gyda'r potensial o gyflwyno risgiau newydd yn enwedig difrod i enw da rheolydd y data a chostau ychwanegol trwy reoli a lliniaru'r risgiau yna. Ein prif bryder yw diogelu cyfrinachedd, gonestrwydd ac argaeledd y data, ac i leihau risg i'r data hwn.

**Mae pob ymholiad cofnod gyrrwr yn costio £5. Anfonwch siec neu archeb bost am £5, yn daladwy i DVLA Abertawe a dychwelwch i: Tîm DACT, DVLA, Abertawe, SA99 1AJ.**

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE
RHAGORIAETH MEWN GWASANAETH I GWSMERIAID
CSE
BUDDSODDWYR MEWN POBL
Arian tan 2019

Prynu cerbyd?
Nid yw'r dreth yn drosglwyddadwy mwyach felly rhaid i chi ei drethu cyn i chi ei ddefnyddio.
www.gov.uk/vehicletaxrules

**PWYSIG:** Darllenwch y nodiadau dros y dudalen cyn llenwi'r ffurflen hon ac ysgrifennwch yn glir mewn inc du gan ddefnyddio PRIF LYTHRENNAU a dychwelwch i: **Tîm DACT, DVLA, Abertawe, SA99 1AJ.**

**D888/1W**

## 1. Manylion y cwmni: (i'w llenwi gan y cwmni sy'n gwneud yr ymholiad cyn i'r gyrrwr lenwi Adran 3)

Enw a chyfeiriad y cwmni/busnes: ____________________

Enwau masnachu eraill (os yn berthnasol): ____________________

Math y cwmni/busnes: ____________________

Rhif diogelu data: ____________________

Os wedi'i eithrio, esboniwch pam: ____________________

Rhif Tŷ'r Cwmnïau: ____________________

A ydych yn gwneud ymholiad ar ran cwmni arall? Ydw ☐ Nac ydw ☐

Os ydw, rhowch enw'r cwmni isod: ____________________

## 2. Rheswm dros brosesu'r wybodaeth: (i'w llenwi gan y cwmni sy'n gwneud yr ymholiad cyn i'r gyrrwr lenwi Adran 3)

a) Pam mae arnoch angen ein data? ____________________

b) Sut byddwch yn defnyddio'r data? ____________________

c) Ydych chi'n bwriadu defnyddio'r wybodaeth mewn gwlad arall? Ydw ☐ Nac ydw ☐

## 3. Manylion y gyrrwr: (i'w llenwi gan y gyrrwr)

Cyfenw: ____________________

Enw cyntaf: ____________________ Enw(au) canol: ____________________

Dyddiad geni: D D M M B B

Rhif trwydded gyrrwr: ☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐

Cyfeiriad presennol:

Llinell 1 ____________________

Llinell 2 ____________________

Llinell 3 ____________________

Tref bost ____________________

Cod post: ☐☐☐☐☐☐☐

Cyfeiriad ar y drwydded (os yn wahanol):*

Llinell 1 ____________________

Llinell 2 ____________________

Llinell 3 ____________________

Tref bost ____________________

Cod post: ☐☐☐☐☐☐☐

* Rhaid i chi ddweud wrth DVLA am unrhyw newidiadau i'ch cyfeiriad. Os na wnewch hynny, gallech gael dirwy o hyd at £1,000.

## 4. Datganiad prosesu teg gwybodaeth y gyrrwr (i'w llenwi gan y gyrrwr):

**PWYSIG: Darllenwch y nodiadau drosodd cyn llofnodi'r ffurflen hon. Peidiwch â llofnodi os nad yw Adrannau 1 a 2 wedi eu llenwi.**

**Datganiad:**

Fi yw'r sawl y cyfeirir ato yn Adran 3. Rwy'n deall y bydd y cwmni neu gwmnïau a restrir yn Adran 1 yn gofyn i DVLA am fy ngwybodaeth cofnod gyrrwr, yn ôl y galw, i'r dibenion a sefydlir yn Adran 2.

Rwyf yn deall y bydd DVLA yn datgelu i'r cwmni neu gwmnïau yn Adran 1 yr holl wybodaeth berthnasol a gedwir ar y gofrestr gyfrifiadurol o yrwyr a gynhelir gan DVLA. Mae hyn yn cynnwys manylion personol, hawl i yrru, ardystiadau dilys a gwaharddiadau (os yn berthnasol) a delweddau llun.

Bydd y datganiad hwn yn dod i ben pan fyddaf yn stopio gyrru mewn cysylltiad â'r cwmni, neu beth bynnag o fewn tri mis o ddyddiad fy llofnod.

LLOFNOD: ____________________ DYDDIAD: D D M M B B